# Nodyn Arweiniad Technegol 005: Cael hawlen o dan Orchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019

## 1 Cyflwyniad

Fel Prifysgol, mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol a yw staff neu fyfyrwyr yn trin planhigion neu anifeiliaid a ddiffinnir fel 'rhywogaeth oresgynnol' a sicrhau bod yr hawlenni cysylltiedig ganddynt. Isod ceir crynodeb o Orchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron 2019, sy'n gweithredu Rheoliad yr UE Rhif. 1143/2014 ar atal a rheoli cyflwyniad ac ymlediad rhywogaethau goresgynnol estron ("Rheoliad IAS").

## 2 Trwyddedu Rhywogaethau Goresgynnol Estron

### 2.1 Pryd mae angen hawlen arnaf?

Bydd angen hawlen arnoch chi os ydych yn bwriadu cynnal ymchwil sy'n cynnwys un o'r rhywogaethau goresgynnol a nodir yn:

- Rhan 1, 2 neu 3 Atodlen 2 Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019
- Atodiad Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (yr UE) 2016/1141 dyddiedig 13 Gorffennaf 2016 sy'n mabwysiadu rhestr o rywogaethau goresgynnol estron o bryder i'r Undeb yn unol â Rheoliad (yr UE) Rhif 1143/2014 Senedd Ewrop a Rheoliad y Cyngor C/2016/4295.

Mae 'Atodiad 1 - Rhywogaethau goresgynnol y mae angen hawlenni arnynt' y ddogfen hon yn cynnwys y rhestrau o sbesimenau ar gyfer rheoliadau'r DU a'r rheoliadau IAS. Gwiriwch a ydych yn trin neu a fyddwch yn trin unrhyw un o'r sbesimenau hyn yn eich prosiect ymchwil.

### 2.2 Beth mae angen i mi ei wneud i gael hawlen?

Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn trwyddedu gweithgareddau penodol[1], caiff yr hawlenni yng Nghymru eu dosbarthu, eu monitro a'u dirymu gan yr Awdurdod Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd a Dyframaeth (CEAS) ar gyfer anifeiliaid dyfrol. Os oes angen hawlen arnoch i ddefnyddio anifeiliaid a phlanhigion goresgynnol estron a restrir ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau a restrir isod, bydd angen hawlen arnoch (Adran2.2.1):

- ymchwil annibynnol
- cadwraeth ex-situ

[1]Mae gweithgareddau y mae angen hawlen arnynt yn cynnwys (1) dileu rhywogaeth sydd newydd gyrraedd yn gyflym; (2) rheoli rhywogaeth sydd wedi ymledu'n helaeth; a (3) chadw anifail tan ddiwedd ei fywyd naturiol

- dibenion gwyddonol neu feddyginiaethol

### 2.2.1 Cyflwyno cais am hawlen

1. Cwblhewch y cais o dan erthygl 35(1)(a) neu (b) Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019
    a. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/850256/form-ias-permit-article351ab.pdf
2. Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i Ganolfan Masnach Ryngwladol yr APHA: Bryste
    a. wildlife.licensing@apha.gov.uk
3. Cysylltwch â'r awdurdod trwyddedu yn ôl yr angen
4. Rhowch wybod i'ch Swyddog yr Amgylchedd lleol (adran 4) gan roi copi o'r hawlen iddo pan fydd wedi'i darparu i chi.

## 2.3 Oes gofynion o ran sut rydw i'n storio fy sbesimenau?

Oes, manylir ar y gofynion yn rheoliad yr UE ar gyfer 'Atal a rheoli cyflwyniad ac ymlediad rhywogaethau goresgynnol estron' (Rhif 1143/2014). Mae'r rheoliad yn gofyn i'r unigolyn/sefydliad sy'n ymgymryd â'r ymchwil sicrhau cydymffurfiaeth ag Erthygl 8 (2) ac 8 (3)[2]. Darperir hawlenni gan awdurdodau cymwys ar gyfer gweithgareddau mewn lleoliad cadw cyfyngedig sy'n cydymffurfio â'r canlynol:

a) Rhaid i rywogaethau gael eu cadw a'u trin mewn lleoliad cadw cyfyngedig sy'n cynnwys y canlynol:
    (a) rhaid eu bod wedi'u hynysu heb bosibilrwydd y gallant ddianc neu ymledu neu y gellir eu symud gan bobl anawdurdodedig o'r lleoliad lle cânt eu cadw.
    (b) Mae protocolau glanhau, trin gwastraff a chynnal a chadw yn sicrhau nad oes modd i sbesimenau neu rannau â'r gallu i atgenhedlu ddianc, ymledu neu gael eu symud gan bobl anawdurdodedig
    (c) Caiff sbesimenau eu symud o'r lleoliad, eu gwaredu neu eu dinistrio, neu eu difa heb greulondeb mewn modd sy'n golygu na allant luosogi neu atgenhedlu y tu allan i'r lleoliad cadw.
b) Cynhelir gweithgarwch gan unigolion sydd â'r cymwysterau priodol.
c) Cludir rhywogaethau goresgynnol estron mewn modd sy'n golygu na allant ddianc
d) Caiff anifeiliaid eu brandio, os yw'n briodol, gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn achosi poen, gofid neu ddioddefaint y gellir eu hosgoi.
e) Rheolir risg o ddianc neu ymledu neu symud o'r lleoliad yn effeithiol (ystyriwch hunaniaeth, bioleg a chyfrwng gwasgaru'r rhywogaeth, y gweithgarwch a lle y'i cynhelir)

[2]Rheoliad (yr UE) Rhif 1143/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 22 Hydref 2014 ynghylch atal a rheoli cyflwyniad ac ymlediad rhywogaethau goresgynnol estron https://eur-lex.europa.eu/eli/reg/2014/1143/oj#d1e1146-35-1

f) Datblygir a gweithredir system gwyliadwriaeth barhaus a chynllun wrth gefn sy'n cwmpasu'r posibilrwydd o ddianc neu ymledu (gan gynnwys cynllun dileu, os yw'n briodol) a gaiff ei gymeradwyo gan yr awdurdod sy'n darparu'r hawlen

Bydd yr hawlen a ddarperir yn manylu ar y canlynol:

- Y rhywogaeth benodol a nifer yr enghreifftiau o'r rhywogaeth honno sy'n addas ar gyfer yr ardal gadw
- Cyfyngiadau sy'n angenrheidiol i leihau'r risg y bydd y rhywogaeth benodol yn dianc neu'n ymledu

Gall yr hawlen gynnwys gofynion eraill hefyd; mae'r grŵp sy'n derbyn yr hawlen yn gyfrifol am fod yn ymwybodol o'r holl ofynion.

## 3 Cyfrifoldebau

| Rôl | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Y Tîm Cynaliadwyedd** | Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn gyfrifol am:<br>• Gefnogi'r cais<br>• Trefnu gwaredu arbenigol os oes ei angen[3] |
| **Prif Ymchwilydd neu Arweinydd yr Ymchwil** | Mae'r Prif Ymchwilydd neu Arweinydd yr Ymchwil (neu'r unigolyn cyfrifol dirprwyedig) yn gyfrifol am y canlynol:<br>• Cwblhau cais am yr hawlen<br>• Cyflwyno cais am yr hawlen<br>• Yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r hawlen<br>• Cysylltu â'r corff rheoleiddio<br>• Cydymffurfio â'r hawlen drwy gydol cyfnod y prosiect ymchwil<br>• Gwaredu yn unol â gofynion yr hawlen, gan gynnwys costau cysylltiedig<br>• Adnewyddu a chanslo'r hawlen yn ôl yr angen<br>• Adrodd am yr hawlen yn ôl yr angen<br>• Darparu copi o'r hawlen i Swyddog yr Amgylchedd a sicrhau y caiff ei hysbysu'n brydlon am newidiadau, e.e. diwedd y gweithgaredd / canslo'r hawlen |

## 4 Cymorth ychwanegol

Am gymorth ychwanegol, gallwch gysylltu â'r canlynol:

| Rôl | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|
| Swyddog Bioamrywiaeth | wildlife@abertawe.ac.uk |
| Swyddog yr Amgylchedd/Amgylcheddol | **sustainability@abertawe.ac.uk** |

[3] Am ragor o wybodaeth gweler y Nodiadau Arweiniad ynghylch rheoli Gwastraff ar gyfer Prifysgol Abertawe neu e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

# 5 Rheolaeth Dogfen

| **Rheolaeth Dogfen** | |
|---|---|
| Awdur: | Benjamin Sampson a Hayley Beharrell |
| Cymeradwywyd gan: | Heidi Smith |
| Dyddiad yr Adolygiad: | Chwefror 2021 |
| Fersiwn: | 1 |

| **Fersiwn** | **Newidiadau** |
|---|---|
| 1 | Dogfen newydd |
| | |
| | |

# Atodiad 1 - Rhywogaethau goresgynnol y mae angen hawlenni arnynt

- Rhyddhau anifeiliaid a restrir yn Rhan 1 Atodlen 2 (Tabl 1)
- Plannu neu ganiatáu i dyfu yn yr amgylchedd gwyllt Rhan 2 atodlen 2 (Tabl 2)
- Gwerthu neu ymwneud â gwerthu planhigyn a restrir yn Rhan 3 atodlen 2 (Tabl 3)
- Mae'r Rheoliad IAS yn rhestru rhywogaethau o bryder na ellir eu mewnforio, eu cadw, eu bridio/tyfu, eu cludo, eu gwerthu, eu defnyddio, caniatáu iddynt atgenhedlu, neu eu rhyddhau i'r amgylchedd (Tabl 4)

**Sylwer:** Roedd y tablau hyn yn gyfredol ym mis Mehefin 2020. Defnyddiwch y dolenni yn y troednodiadau i sicrhau eich bod yn gwirio'r fersiynau diweddaraf.

### Tabl 1: Atodlen 2, Rhan 1 Anifeiliaid y mae'r tramgwydd yn erthygl 3(2) yn berthnasol iddynt[4]

| ***Enw Cyffredin[5]*** | ***Enw Gwyddonol*** |
|---|---|
| Crafanc Manegog Tsieina | *Eriocheir sinensis* |
| Cimwch Coch y Gors | *Procambarus clarkii* |
| Cimwch Afon America | *Pacifastacus leniusculus* |
| Cimwch Afon Rhesog | *Orconectes limosus* |
| Carw Mwntjac | *Muntiacus reevesi* |
| Hwyaden Goch | *Oxyura jamaicensis* |
| Gŵydd yr Aifft | *Alopochen aegyptiacus* |
| Gwiwer Lwyd | *Sciurus carolinensis* |

### Tabl 2: Atodlen 2, Rhan 2 Planhigion y mae'r tramgwydd yn erthygl 3(3) yn berthnasol iddynt[3]

| ***Enw Cyffredin[1]*** | ***Enw Gwyddonol*** |
|---|---|
| Jac y Neidiwr | *Impatiens glandulifera* |
| Tarian dŵr Carolina | *Cabomba caroliniana* |
| Efwr Enfawr | *Heracleum mantegazzianum* |
| Hiasinth y Dŵr | *Eichhornia crassipes* |
| Pluen Parot | *Myriophyllum aquaticum* |
| Dail-ceiniog Arnofiol | *Hydrocotyle ranunculoides* |
| Briallen Arnofiol y Dŵr | *Ludwigia peploides* |
| Briallen y Dŵr | *Ludwigia grandiflora* |
| Riwbob Enfawr (a adnabyddir hefyd fel Riwbob Tsile) | *Gunnera tinctoria* |
| Ffugalaw Crych | *Lagarosiphon major* |
| Ffugalaw Nuttall | *Elodea nuttallii* |

[4]Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019, Atodlen 2 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2019/527/schedule/2/made

[5]Mae'r enw neu'r enwau cyffredin a roddir yn y golofn gyntaf wedi'u cynnwys er arweiniad yn unig; os oes anghydfod neu weithrediadau, ni chaiff yr enw neu'r enwau cyffredin eu hystyried.

### Tabl 3: Atodlen 2, Rhan 3 Rhywogaethau y mae'r tramgwyddau yn erthygl 3 (4) yn berthnasol iddynt[3]

| ***Enw Cyffredin[1]*** | ***Enw Gwyddonol*** |
|---|---|
| Pluen Perot | *Myriophyllum aquaticum* |
| Dail-ceiniog Arnofiol | *Hydrocotyle ranunculoides* |
| Briallen Arnofiol y Dŵr | *Ludwigia peploides* |
| Briallen y Dŵr | *Ludwigia grandiflora.* |

### Tabl 4: ATODIAD: Rhestr o Rywogaethau Goresgynnol Estron o Bryder i'r Undeb[6]

| **Rhywogaeth** | **Codau CN ar gyfer sbesimenau byw** | **Codau CN ar gyfer rhannu â'r gallu i atgenhedlu** | **Categorïau o nwyddau cysylltiedig** |
|---|---|---|---|
| (i) | (ii) | (iii) | (iv) |
| *Baccharis halimifolia* L. | ex 0602 90 49 | ex 0602 90 45 (toriadau â gwreiddiau a phlanhigion ifanc) ex 1209 99 99 (hadau) | |
| *Cabomba caroliniana* Gray | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | |
| *Callosciurus erythraeus* Pallas, 1779 | ex 0106 19 00 | — | |
| *Corvus splendens* Viellot, 1817 | ex 0106 39 80 | ex 0407 19 90 (wyau wedi'u ffrwythloni i'w deori) | |
| *Eichhornia crassipes* (Martius) Solms | ex 0602 90 50 | ex 1209 30 00 (hadau) | |
| *Eriocheir sinensis* H. Milne Edwards, 1854 | ex 0306 24 80 | — | |
| *Heracleum persicum* Fischer | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | (6) |
| *Heracleum sosnowskyi* Mandenova | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | |

[6]Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (yr UE) 2016/1141 dyddiedig 13 Gorffennaf 2016 yn mabwysiadu rhestr o rywogaethau goresgynnol estron o bryder i'r Undeb yn unol â Rheoliad (yr UE) Rhif 1143/2014 Senedd Ewrop a Rheoliad y Cyngor C/2016/4295 https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX%3A32016R1141#d1e32-6-1

| Rhywogaeth | Codau CN ar gyfer sbesimenau byw | Codau CN ar gyfer rhannu â'r gallu i atgenhedlu | Categorïau o nwyddau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| *Herpestes javanicus* É. Geoffroy Saint-Hilaire, 1818 | ex 0106 19 00 | — | |
| *Hydrocotyle ranunculoides* L. f. | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | |
| *Lagarosiphon major* (Ridley) Moss | ex 0602 90 50 | — | |
| *Lithobates (Rana) catesbeianus* Shaw, 1802 | ex 0106 90 00 | — | |
| *Ludwigia grandiflora* (Michx.) Greuter & Burdet | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | |
| *Ludwigia peploides* (Kunth) P.H. Raven | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | |
| *Lysichiton americanus* Hultén and St. John | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | |
| *Muntiacus reevesi* Ogilby, 1839 | ex 0106 19 00 | — | |
| *Myocastor coypus* Molina, 1782 | ex 0106 19 00 | — | |
| *Myriophyllum aquaticum* (Vell.) Verdc. | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | |
| *Nasua nasua* Linnaeus, 1766 | ex 0106 19 00 | — | |
| *Orconectes limosus* Rafinesque, 1817 | ex 0306 29 10 | — | |
| *Orconectes virilis* Hagen, 1870 | ex 0306 29 10 | — | |
| *Oxyura jamaicensis* Gmelin, 1789 | ex 0106 39 80 | ex 0407 19 90 (wyau wedi'u ffrwythloni i'w deori) | |
| *Pacifastacus leniusculus* Dana, 1852 | ex 0306 29 10 | — | |
| *Parthenium hysterophorus* L. | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | (5), (7) |

| Rhywogaeth | Codau CN ar gyfer sbesimenau byw | Codau CN ar gyfer rhannu â'r gallu i atgenhedlu | Categorïau o nwyddau cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| *Perccottus glenii* Dybowski, 1877 | ex 0301 99 18 | ex 0511 91 90 (wyau pysgod ffrwythlon ar gyfer deor) | (1), (2), (3), (4) |
| *Persicaria perfoliata* (L.) H. Gross (*Polygonum perfoliatum* L.) | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | (5), (11) |
| *Procambarus clarkii* Girard, 1852 | ex 0306 29 10 | — | |
| *Procambarus fallax* (Hagen, 1870) f. *virginalis* | ex 0306 29 10 | — | |
| *Procyon lotor* Linnaeus, 1758 | ex 0106 19 00 | — | |
| *Pseudorasbora parva* Temminck & Schlegel, 1846 | ex 0301 99 18 | ex 0511 91 90 (wyau pysgod ffrwythlon i'w deor) | (1), (2), (3), (4) |
| *Pueraria montana* (Lour.) Merr. *var. lobata* (Willd.) (*Pueraria lobata* (Willd.) Ohwi) | ex 0602 90 50 | ex 1209 99 99 (hadau) | |
| *Sciurus carolinensis* Gmelin, 1788 | ex 0106 19 00 | — | |
| *Sciurus niger* Linnaeus, 1758 | ex 0106 19 00 | — | |
| *Tamias sibiricus* Laxmann, 1769 | ex 0106 19 00 | — | |
| *Threskiornis aethiopicus* Latham, 1790 | ex 0106 39 80 | ex 0407 19 90 (wyau wedi'u ffrwythloni i'w deori) | |
| *Trachemys scripta* Schoepff, 1792 | ex 0106 20 00 | — | |
| *Vespa velutina nigrithorax* de Buysson, 1905 | ex 0106 49 00 | — | (8), (9), (10) |

**Nodiadau i'r tabl:**

- Colofn (i): Rhywogaeth
  - Mae'r golofn hon yn rhoi enw gwyddonol y rhywogaeth. Mae cyfystyron wedi'u cynnwys mewn cromfachau.
- Colofn (ii): Codau CN ar gyfer sbesimenau byw.
  - Mae'r golofn hon yn rhoi'r codau Cyfundrefn Enwi Gyfun (CN) ar gyfer y sbesimenau byw. Bydd y nwyddau y dynodwyd y codau CN yn y golofn hon iddynt yn destun rheolaethau swyddogol o dan Erthygl 15 Rheoliad (yr UE) Rhif 1143/2014.
  - Mae'r CN, a sefydlwyd gan Reoliad (y Gymuned Economaidd Ewropeaidd) Rhif 2658/87, yn seiliedig ar y System Disgrifiad a Chodio Nwyddau wedi'i Chysoni (HS) a luniwyd gan y Cyngor Cydweithredu ar Dollau, bellach Sefydliad Tollau'r Byd (WCO), a fabwysiadwyd gan y Confensiwn Rhyngwladol, a gwblhawyd ym Mrwsel ar 14 Mehefin 1983, ac a gymeradwywyd ar ran y Gymuned Economaidd Ewropeaidd gan benderfyniad 87/369/EEC y Cyngor ([1]) ('y Confensiwn HS). Mae'r CN yn atgynhyrchu penawdau ac is-benawdau'r HS i chwe digid gyda'r seithfed a'r wythfed ffigur yn unig yn creu is-benawdau penodol.
  - Lle mae angen cynnal gwiriadau ar gyfer nwyddau penodol yn unig, o dan unrhyw gôd pedwar, chwech neu wyth digid, ac nid oes is-adran benodol o dan y côd hwn yn y CN, dynodir y côd hwn ag **ex** (er enghraifft, mae ex 0106 49 00, fel côd CN 0106 49 00 yn cynnwys yr holl bryfed eraill, nid y rhywogaeth bryfed a nodir yn y tabl yn unig).
- Colofn (iii): Côd CN ar gyfer rhannau â'r gallu i atgenhedlu
  - Mae'r golofn hon yn nodi, lle y bo'n briodol, y codau Cyfundrefn Enwi Gyfun (CN) ar gyfer y rhannau o'r rhywogaeth sydd â'r gallu i atgenhedlu. Gweler hefyd y nodyn ar gyfer colofn (ii). Bydd y nwyddau y dynodir y codau CN yn y golofn hon iddynt yn destun rheolaethau swyddogol yn unol ag erthygl 15 Rheoliad (yr UE) Rhif 1143/2014.
- Colofn (iv): Categorïau o nwyddau cysylltiedig
  - Mae'r golofn hon yn nodi, lle y bo'n briodol, godau CN nwyddau y mae'r rhywogaeth oresgynnol estron fel arfer yn gysylltiedig â nhw. Nid yw'r nwyddau y dynodir y codau CN yn y golofn hon iddynt yn destun rheolaethau swyddogol yn unol ag Erthygl 15 Rheoliad (yr UE) Rhif 1143/2014. Gweler hefyd y nodyn ar gyfer colofn (ii). Yn benodol, mae'r rhifau a nodir yng ngholofn (iv) yn cyfeirio at y codau CN isod:
    - (1) 0301 11 00: Pysgod dŵr croyw addurnol
    - (2) 0301 93 00: Cerpyn (Cyprinus carpio, Carassius carassius, Ctenopharyngodon idellus, Hypophthalmichthys spp., Cirrhinus spp., Mylopharyngodon piceus)
    - (3) 0301 99 11: Eog y môr tawel (Oncorhynchus nerka, Oncorhynchus gorbuscha, Oncorhynchus keta, Oncorhynchus tschawytscha, Oncorhynchus kisutch, Oncorhynchus masou ac Oncorhynchus

rhodurus), Eog yr Iwerydd (Salmo salar) ac Eog y Ddonwy(Hucho hucho)

- (4) 0301 99 18: Pysgod dŵr croyw eraill
- (5) ex 0602: Planhigion i'w plannu â chyfryngau tyfu
- (6) 1211 90 86: Planhigion eraill a rhannau o blanhigion (gan gynnwys hadau a ffrwythau), o'r math a ddefnyddir yn bennaf i gynhyrchu persawr, mewn fferylliaeth neu ar gyfer pryfladdwyr, ffwngladdwyr neu at ddibenion eraill, ffres neu wedi'u sychu, boed wedi'u torri, eu malu neu eu powdro ai peidio.
- (7) ex 2530 90 00: Pridd a chyfryngau tyfu
- (8) 4401: Pren tanwydd, ar ffurf boncyffion, biledau, brigau, ffagodau neu ffurfiau eraill; pren ar ffurf sglodion neu ronynnau; blawd llif a gwastraff a sborion pren, boed wedi'u cyfuno ar ffurf boncyffion, briciau tanwydd, pelenni neu ffurfiau eraill.
- (9) 4403: Pren heb ei drin, p'un a yw'r rhisgl neu'r gwynnin wedi'i dynnu ai peidio, neu wedi'i sgwario'n fras.
- (10) ex 6914 90 00: Potiau ceramig ar gyfer garddio
- (11) ex Pennod 10: Hadau grawnfwyd i'w hau